**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Y Rhyl, 23 Mehefin 2016 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Rhyl, 23 June 2016 (10.30am – 3pm)***

***Presenoldeb/Attendance***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Bethan James<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Gill Vaisey<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Mary Parry<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord<br>Nicholas Richter | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Huw Stephens<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Mary Parry | **Powys**<br>John Mitson<br>Margaret Evitts<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Gill Vaisey<br>Mathew Maidment<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br><br>**Torfaen /Torfaen**<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Gill Vaisey<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones<br>Samantha Jesson<br>Ruth Holden<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Tudor Thomas (REMW)<br>Abi Williams (Welsh Government)<br>Paula Webber |

Draft

*Cofnodion/Minutes*

| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad a chroeso<br><br>Croesawodd Cadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yr aelodau i'r Rhyl a chyflynodd Bennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych, Karen Evans.<br><br>Croesawodd Karen Evans aelodau CCYSAGauC i Siambr y Cyngor yn y Rhyl a siaradodd am bwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth mewn Addysg. Roedd Karen Evans yn cydnabod gwaith CCYSAGauC a'r 22 CYSAG yng Nghymru yn cyfrannu at y cydweithio hwn, sydd wedi helpu i wella ansawdd addysgu a dysgu mewn ysgolion. Yn nhyb Karen Evans, mae AG yn dal i fod yn rhan allweddol o'r cwricwlwm oherwydd y sgiliau pwysig mae'n eu datblygu mewn pobl ifanc a'r gwersi bywyd a ddysgant ohono, na ddysgir yn unman arall yn aml. Dywedodd Karen hefyd fod AG yn rhoi cyfle i bobl ifanc wneud synnwyr o'u lle nhw yn y byd, gyda chydymdeimlad, tosturi, goddefgarwch, a pharch. Gorffennodd Karen drwy ddymuno'n dda i'r Gymdeithas yn ei chyfarfod a'r Cyfarfod Blynyddol. | 1. Introduction and welcome<br><br>Chair of WASACRE, Phil Lord welcomed members to Rhyl and introduced Head of Education and Children's Services for Denbighshire, Karen Evans.<br><br>Karen Evans welcomed WASACRE members to the Council Chamber in Rhyl and spoke about the importance of collaboration and partnership working in Education. Karen Evans acknowledged the work of WASACRE and the 22 SACREs in Wales in contributing to this collaboration, which has helped to improve the quality of teaching and learning in schools. Karen Evans shared her belief that RE remained a pivotal part of the curriculum because of the important skills it develops in young people and the life lessons they learn from it, which are often not taught elsewhere. Karen also said that RE gives young people the space to make sense of their own place in the world, with empathy, compassion, tolerance, and respect. Karen concluded her welcome by wishing WASACRE well in its meeting and AGM. |
| 2. Adfyfyrio tawel<br><br>Arweiniodd Phil Lord yr aelodau i adfyfyrio a gofynnodd iddynt ystyried y gwaith pwysig yr oeddent ar fin ei wneud yn ystod y cyfarfod. | 2. Quiet reflection<br><br>Phil Lord lead a reflection and asked members to consider the important work they were about to embark on during the meeting. |
| 3. Ymddiheuriadau<br><br>Tania ap Sion, Christine Abbas, Alwen Roberts, Vicky Thomas, Cyng Ernie Galsworthy, Sue Cave, Helen Gibbon a Meinir Loader, Jen Malcolm, Cyng Arwel Roberts, Sharon Perry Phillips | 3. Apologies<br><br>Tania ap Sion, Christine Abbas, Alwen Roberts, Vicky Thomas, Cllr Ernie Galsworthy, Sue Cave, Helen Gibbon and Meinir loader, Jen Malcolm, Cllr Arwel Roberts, Sharon Perry Phillips |
| 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Hwlffordd, 8 Mawrth 2015<br><br>Diolchodd Phil i Edward Evans am gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan Huw Stephens ac eiliwyd gan Gill Vaisey. | 4. Minutes of meeting held in Haverfordwest, 8 March 2016<br><br>Phil thanked Edward Evans for chairing the meeting in his absence. The minutes were accepted as a true record of the meeting. Proposed by Huw Stephens and seconded by Gill Vaisey. |
| 5. Materion yn codi<br><br>TP3. Eitem 5. Materion yn codi. Eglurodd Libby Jones | 5. Matters arising<br><br>P3. Item 5. Matters arising. Libby Jones explained that |

Draft

| | |
|---|---|
| fod y ddolen o wefan CCYSAGauC i ddeunydd archif MAGC ar wefan Peniarth wrthi'n cael ei gosod a bydd ar gael cyn bo hir. | the link from the WASACRE website to the REMW archive material on the Peniarth website is currently being set up and will be available soon. |
| T4. Eitem 5. Materion yn codi. Darllenodd Libby Jones yr e-bost yr oedd y Gymdeithas wedi ei derbyn gan Lynda Maddock (CBAC), yn hysbysu'r aelodau, oherwydd y materion a godwyd gan Cymwysterau Cymru ynghylch y fanyleb newydd, ei bod yn annhebygol y byddai'r fanyleb yn cael ei hachredu cyn mis Medi. Rhoddodd Lynda syniadau am ba bynciau y byddai'n ddiogel i athrawon eu dechrau gyda'u disgyblion Blwyddyn 9 o fis Medi 2016, yn barod i'w gweithredu'n swyddogol ym Medi 2017. Awgrymodd Lynda y byddai agweddau o fanyleb newydd Eduquas yn ddefnyddiol at y diben hwn. Cynigiodd Edward Evans fod yr e-bost yn cael ei hanfon i'r CYSAGau ei dosbarthu i'r ysgolion. Dywedodd Tudor Thomas y dylid cymryd gofal gan nad oedd y fanyleb wedi'i hachredu eto. Cafwyd trafodaeth pryd y codwyd y pwyntiau canlynol:<br>Er bod cynnwys manyleb Astudiaethau Crefyddol Eduquas yn debyg i'r fanyleb Astudiaethau Crefyddol newydd i Gymru, gallai'r math o gwestiwn fod yn wahanol; felly mae angen i athrawon fod yn ymwybodol o hynny wrth ddysgu myfyrwyr Blwyddyn 9 cyn Medi 2017. Mae nifer o athrawon yn ystyried fod y cynnwys newydd yn gam yn ôl.<br>Mae angen edrych ar le AG yn y cwricwlwm os yw'r arholiad yn mynd yn gymaint mwy anodd fel bod nifer o ysgolion yn dechrau cwrs Astudiaethau Crefyddol TGAU yn CA3 oherwydd nad ydynt yn rhoi digon o amser ar yr amserlen i AG yn CA4 i ymdrin yn iawn â'r fanyleb. Mynegwyd siom am yr oedi pellach, a fydd yn arwain at fwy o ddryswch i ysgolion ac athrawon. Mae'r Cwrs Byr yn rhan o'r sgôr pwyntiau a gapiwyd felly nid yw mewn cymaint o berygl ag y mae yn Lloegr lle na chaiff ei gyfrif o gwbl ac felly bydd yn diflannu. Mae'r byd AG wedi gweithio'n galed i gael a chadw'r Cwrs Byr Astudiaethau Crefyddol sydd wedi chwyldroi AG statudol a bydd yn drueni i Gymru ei golli. Eglurodd Mary Parry, yn sgil ei chyfarfod â chynrychiolwyr o CBAC yn cynnwys y Prif Weithredwr, Gareth Pierce, y gall hi bellach gadarnhau nad yw cadw cwrs byr ar wahân yn ogystal â'r fanyleb newydd yn opsiwn. Roedd Mary wedi dweud wrth Gareth Pierce nad yw'r fanyleb newydd yn debyg o apelio ar fwyafrif myfyrwyr AG a gallai hyn olygu fod y canlyniadau'n gostwng. Os yw hyn yn digwydd bydd yn rhoi AG mewn sefyllfa beryglus o | P4. Item 5. Matters arising. Libby Jones read out the email WASACRE had received from Lynda Maddock (WJEC), informing members that due to issues raised by Qualifications Wales regarding the new specification it is now unlikely that the spec would be accredited before September. Lynda gave indications of which topics would be safe for teachers to begin with their Year 9 pupils from September 2016, in preparation for its official implementation in September 2017. Aspects of the new Eduquas specification were suggested by Lynda as helpful for this purpose. Edward Evans proposed that the email be sent to SACREs for circulation to schools. Tudor Thomas urged caution as the spec has not yet been accredited. A discussion ensued in which the following points were raised:<br><br>Even though the content of the Eduquas RS specification is similar to the new RS specification for Wales, the question types might be quite different; therefore teachers need to be aware of that when teaching to Year 9 students pre September 2017.<br>The new content is considered to be a step backwards by many teachers. RE's place within the curriculum needs to be looked at if the exam is getting so much harder that many schools are starting the GCSE RS course in KS3 because they are not giving KS4 RE appropriate time on the timetable to cover the specification. Disappointment was expressed in the extended delay, which will result in further confusion for schools and teachers. Short Course is part of the capped point score so it is not in as much danger as it is in England where it is not counted at all and so will disappear. The RE world has worked hard to attain and maintain the RS Short Course which revolutionised statutory RE and it will be a shame for Wales to lose it. Mary Parry explained that from her meeting with representatives from WJEC including Chief Executive, Gareth Pierce, she can now confirm that retaining a separate short course as well as the new specification is not an option. Mary communicated to Gareth Pierce that the new specification is unlikely to appeal to the majority of RE students and this could mean that results will go down. If this happens it will put RE in a dangerous position in terms of time and status and what the pupils receive. |

Draft

| | |
|---|---|
| ran amser a statws a'r hyn y mae disgyblion yn ei dderbyn.<br>**Gweithredu:** Bydd LJ yn ateb Lynda Maddock i ddiolch iddi am yr wybodaeth ac i ofyn pryd bydd yr ysgolion yn cael gwybod yn swyddogol gan CBAC am y sefyllfa sydd ohoni. Bydd LJ yn anfon yr wybodaeth yn yr ebost gan Lynda i GYSAGau er gwybodaeth ac i'w ddosbarthu i'r ysgolion. Bydd LJ yn ysgrifennu at Cymwysterau Cymru i fynegi siom am yr oedi ac i amlinellu'r pryderon sydd gan yr aelodau am gynnwys y fanyleb newydd.<br><br>T4. Eitem 5. Materion yn codi. Bwrsariaethau i fyfyrwyr TAR. Darllenodd LJ yr ebost gan Rachel Bendall, Arweinydd Cwrs TAR Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a oedd yn disgrifio'r hyn sy'n cael ei gynnig o ran bwrsariaethau yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR AC o'i gymharu â Lloegr. Daeth yn amlwg i'r aelodau na all Cymru gystadlu â chynnig Lloegr sydd wedi golygu fod myfyrwyr yn mynd dros y ffin i astudio. Roedd yr aelodau'n gytûn y dylai CCYSAGauC fynd â'r mater hwn i Lywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o ymchwil ar nifer presennol ac amcan nifer staff mewn adrannau AG ar draws Cymru. Cynigiodd Mary Parry fod CCYSAGauC yn gofyn i Rachel holi Vaughan Salisbury am yr ymchwil a wnaeth ef beth amser yn ôl, a oedd yn darparu data i brofi y byddai diffyg athrawon AG yn y dyfodol. Rhannwyd y data hwn â Llywodraeth Cymru ar y pryd er mwyn profi'n llwyddiannus fod angen cyflwyno bwrsariaeth i hyfforddi athrawon AG, er mwyn osgoi'r prinder. Cyflwynwyd y fwrsariaeth gan Lywodraeth Cymru ond mae wedi'i thynnu'n ôl erbyn hyn. Cytunodd yr aelodau y dylid gwneud rhywbeth tebyg er mwyn cael mwy o wybodaeth a data am y sefyllfa hon fel sail i weithredu yn y dyfodol.<br><br>**Gweithredu:** LJ i e-bostio Rachel i wneud ymholiadau.<br><br>T5. Eitem 5. Materion yn codi. Cynrychiolaeth Dyneiddwyr ar CYSAG. Gellir gofyn i'r dyneiddwyr sy'n gofyn am gynrychiolaeth ar CYSAG roi cyflwyniad i'r aelodau presennol yn amlinellu sut y byddai eu cyfethol yn cael effaith gadarnhaol ar CYSAG. Mae'r penderfyniad i gyfethol yn aros gyda phob CYSAG unigol. | **Action:** LJ will reply to Lynda Maddock to thank her for the information and to ask when schools will be officially informed by WJEC of the current situation. LJ will send the information in the email from Lynda to SACREs for their information and for circulation to schools. LJ will write to Qualifications Wales to express disappointment in the delays and to outline the concerns members have about the content of the new specification.<br><br>P4. Item 5. Matters arising. Bursaries for PGCE students. LJ read out the email from Rachel Bendall, RS PGCE Course leader at USWTSD, which described the current bursary offer in Wales for RS PGCE students compared to England. It became clear to members that Wales cannot compete with England's offer which has resulted in students going across the border to study. Members agreed that WASACRE should take this issue to Welsh Government once it has completed some research on the current and projected staffing of all RE departments across Wales. Mary Parry proposed that WASACRE asks Rachel to make an enquiry to Vaughan Salisbury about the research he completed some time ago, which gave hard data to prove that there would be a shortage of RE teachers in the future. This data was shared with Welsh Government at the time to successfully prove that there was a need to introduce a bursary for the training of RE teachers, to avoid this shortage. The Welsh Government subsequently introduced this bursary (which has by now been removed). Members agreed that something similar should be done in order to obtain further information and data regarding this situation to inform future action.<br><br>**Action:** LJ will email Rachel to make enquiries.<br><br>P5. Item 5. Matters arising. Humanist representation on SACRE. Humanists requesting representation on SACRE could be invited to make a presentation to current members outlining how their co-option will positively impact SACRE. The decision to co-opt lies entirely with each individual SACRE. |

Draft

| | |
|---|---|
| T10. Eitem 10. U.F.A. Incerts. Roedd CCYSAGauC wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddatganiad y gellid ei anfon i Incerts i gadarnhau fod y lefelau AG yn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yn statudol. Gwrthododd Llywodraeth Cymru roi datganiad i CCYSAGauC oherwydd mai cwmni masnachol yw Incerts.<br>Atgoffodd Mary Parry'r aelodau am y sefyllfa gan ddweud fod y penawdau ar gyfer lefelau AG ym mhecyn asesu Incerts a ddefnyddir gan nifer o ysgolion yng Nghymru yn gamarweiniol. Nid yw deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yno ac mae Incerts wedi gwrthod eu rhoi i mewn. Mae pob CYSAG wedi hysbysu ysgolion am y dryswch ac wedi egluro pa lefelau yw'r rhai cywir i'w defnyddio.<br><br>**Gweithredu:** LJ i ofyn i Lywodraeth Cymru am ddatganiad sy'n egluro statws lefelau'r Maes Llafur Cytûn yn AG.<br><br>6. Addysg Grefyddol a'i le o fewn y cwricwlwm newydd<br><br>Siaradodd Gill Vaisey am y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Manon Jones ac Abi Williams. Dywedodd Gill ei fod yn gyfarfod cadarnhaol lle yr oeddent wedi gallu rhannu pryderon am oblygiadau'r cwricwlwm newydd i Gymru, yn cynnwys y ddarpariaeth feithrin bresennol i AG a hawliau tynnu'n ôl, a rhannu sut fyddai AG dda yn edrych. Sicrhaodd Gill yr aelodau y bydd CCYSAGauC yn parhau i gwrdd â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i gynnal a datblygu'r berthynas hon sydd o fudd i'r naill a'r llall.<br>Holodd aelod pa ysgolion oedd wedi cael eu dewis i fod yn ysgolion arloesi. Cadarnhaodd Phil Lord fod yr wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.<br><br>7. Diweddariadau<br><br>• FEAAG<br><br>Cynhelir Cynhadledd FEAAG ym mis Awst 2016, ac mae'r dyddiadau a'r manylion ar y wefan www.EFTRE.net . Bydd Phil Lord yn mynd i'r gynhadledd, a fydd yn edrych ar AG mewn byd amlddiwylliannol gyda'r nod o helpu i fynd i'r afael â'r agenda gwrthderfysgaeth. Cynigir nifer o weithdai gwahanol ac anogodd Phil yr aelodau i ddosbarthu'r | P10. Item 10. A.O.B. Incerts. WASACRE wrote to Welsh Government to request a statement which could be sent to Incerts to confirm that the RE levels in the National Exemplar Framework are statutory. Welsh Government refused to supply WASACRE with a statement due to Incerts being a commercial enterprise. Mary Parry reminded members of the situation and that the headings for the RE levels within the Incerts assessment package used by many schools in Wales are misleading. The Foundation Phase outcomes are not on there and Incerts have refused to put them on. All SACREs have notified schools of the confusion and have explained which levels are the correct ones to use.<br><br>**Action:** LJ will ask Welsh Government for a statement which explains the status of the Agreed Syllabus levels in RE.<br><br>6. Religious Education and its place within the new curriculum<br><br>Gill Vaisey spoke about the meeting between WASACRE Executive representatives and Welsh Government representatives Manon Jones and Abi Williams. Gill said that it was a positive meeting in which they were able to share concerns over the implications of the new curriculum for Wales, including the current nursery provision for RE and withdrawal rights, and to share what good RE might look like. Gill assured members that WASACRE will continue to meet with Welsh Government in the future to maintain and develop this mutually beneficial relationship. A member asked which schools had been chosen as pioneer schools. Phil Lord confirmed that the information was available on the Welsh Government website.<br><br>7. Up-dates:<br><br>• EFTRE<br><br>The EFTRE Conference will take place in August 2016, the dates and details for which are on the EFTRE website www.EFTRE.net . Phil Lord will be going to the conference, which will focus on RE in a multi-cultural world and will aim to help address the anti-terrorism agenda. Lots of different workshops will be offered and Phil urged members to circulate the |

Draft

| | |
|---|---|
| wybodaeth am y gynhadledd i athrawon yn eu Hawdurdodau Lleol. | information about the conference to teachers in their Local Authorities. |
| • Canlyniadau Bagloriaeth Cymru ac Arolwg Addysg Grefyddol | • Results of the Welsh Baccalaureate and RE Survey |
| Rhannodd Libby Jones gyflwyniad PowerPoint gyda'r aelodau a oedd yn dangos canlyniadau cychwynnol arolwg Bagloriaeth Cymru. Mae'r cyflwyniad ar gael ar wefan CCYSAGauC www.wasacre.org<br>Dilynwyd hyn gan drafodaeth pryd y codwyd y pwyntiau a'r cwestiynau canlynol:<br>Pa ganran o ysgolion o bob awdurdod a ymatebodd i'r holiadur?<br>Os yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi cael effaith negyddol ar ysgolion, dylid rhoi cefnogaeth cyn gynted ag y bo modd.<br>Dylai CCYSAGauC dynnu sylw at yr enghreifftiau o effaith gadarnhaol a'u rhannu fel arfer da i bob ysgol yng Nghymru.<br>Mae'r meysydd llafur cytûn presennol yng Nghymru (y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol) yn datgan ar hyn o bryd y gellir cynnig AG yn CA4 drwy 'gymwysterau priodol eraill' (e.e. Sgiliau Allweddol/Bagloriaeth Cymru)'. A ddylem edrych ar y canllaw hwn gyda golwg ar ei ail-eirio?<br>Beth yw canlyniadau peidio â gwneud AG statudol yn CA4?<br>Dylai'r wybodaeth yn yr ymatebion o bob ysgol gael ei hanfon i'r CYSAG priodol iddyn nhw ddelio ag unrhyw faterion a godwyd a rhoi adborth i CCYSAGauC ar gynnydd.<br>Dylid diolch yn ffurfiol i'r ysgolion am ymateb i'r arolwg. | Libby Jones shared a PowerPoint presentation with members showing the initial results of the Welsh Baccalaureate survey. The PowerPoint is available on the WASACRE website www.wasacre.org . A discussion ensued in which the following points and questions were raised:<br>What percentage of schools from each authority responded to the questionnaire?<br>Where the Welsh Baccalaureate Qualification has negatively impacted schools support should be given as soon as possible.<br>WASACRE should highlight the examples of positive impact and share them as good practice to all schools in Wales.<br>The current agreed syllabi in Wales (National Exemplar Framework) currently states that KS4 RE can be offered through 'other appropriate qualifications (e.g. Key Skills/Welsh Baccalaureate)'. Should we be looking at this guidance with a view to re-wording it?<br>What are the consequences for not doing statutory RE at KS4?<br>The information within the responses from each school should be sent to the appropriate SACRE for them to deal with any issues which have been raised and feedback given to WASACRE on progress. Schools should be formally thanked for responding to the survey. |
| **Gweithredu:** LJ i anfon llythyr o ddiolch i'r ysgolion unigol drwy eu CYSAG lleol. Anfon y cyflwyniad PowerPoint i'r CYSAGau er gwybodaeth. Adrodd yr ymatebion yn ôl i'r CYSAGau am eu hysgolion er gwybodaeth. Anfon gwybodaeth i Ymgynghorwyr AG/CYSAGau am yr ysgolion nad ydynt o bosibl yn bodloni'r gofynion statudol presennol ar gyfer AG a gofyn am adborth ar gamau gweithredu a chynnydd yr Awdurdodau Lleol. | **Action:** LJ to send letter of thanks to the individual schools via their local SACRE. Send PowerPoint presentation to SACREs for their information. Feedback the responses to the SACREs about their schools for their information. Send information to the RE Advisors/SACREs regarding the schools who may not be meeting current statutory requirements for RE and request feedback on the Local Authorities' actions and progress. |
| • Canllawiau ar Reoli Hawl Tynnu'n ôl o Addysg Grefyddol | • Guidance on Managing the Right of Withdrawal from Religious Education |
| Rhoddodd Gill gyd-destun y ddogfen ganllaw gan egluro ei bod wedi'i llunio ar gais Penaethiaid i gael | Gill gave members the context to the guidance document explaining that it was done on request of |

Draft

| | |
|---|---|
| canllawiau ar dynnu'n ôl o AG. Mae PYCAG wedi cefnogi Gill i ysgrifennu'r Canllawiau hyn. Cafodd Penaethiaid eu cynnwys hefyd, yn ogystal ag amrywiol Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Dilwyn Hunt (cadeirydd AREIAC). Mae pwyslais y ddogfen ar helpu Penaethiaid i reoli tynnu plant yn ôl o AG. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei hargraffu fel dogfen sgleiniog ac ar PDF ac maent wedi gofyn i'r Trysorydd a allai CCYSAGauC ariannu hyn. Byddai'n ddogfen a noddwyd gan CCYSAGauC a byddai CCYSAGauC yn talu am y costau dylunio, argraffu a chyfieithu.<br>Roedd mwyafrif yr aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn cytuno i CCYSAGauC roi cymorth ariannol i'r ddogfen ganllaw hon.<br>Cynigiwyd y dylai gwefan CCYSAGauC gael ei gwella a'i diweddaru, yn cynnwys logo'r Gymdeithas ac arddull ddylunio ar gyfer dogfennau'r Gymdeithas yn y dyfodol. Pleidleisiodd mwyafrif yr aelodau o blaid y cynnig hwn. | Headteachers for guidance on withdrawal from RE. NAPfRE have supported Gill on writing this Guidance. Headteachers have been involved, as have different Local Authorities in Wales and Dilwyn Hunt (chair of AREIAC). The emphasis of the document is on helping Headteachers manage the withdrawal from RE. The Exec committee considered making it available as a glossy document and on PDF to publish it and have asked the Treasurer if WASACRE would support it in terms of funding. It would be a WASACRE sponsored document and WASACRE would pay for the design, printing and translation costs. The majority of members present at the meeting agreed for WASACRE to give financial support to this guidance document. It was proposed that the WASACRE website should be improved and up-dated, including the WASACRE logo and design style for future WASACRE documents. The majority of members voted in agreement of this proposal. |
| 8. Cyflwyniad NAPfRE: Addoli ar y Cyd a chadw arferion crefyddol mewn Ysgolion | 8. NAPfRE presentation:Collective Worship and Religious Observance in Schools- Alison Mawhinney and Ann Sherlock |
| Rhoddodd Alison ac Ann gyflwyniad ar eu hymchwil diweddar i Addoli ar y Cyd ar draws y DU, yn cynnwys edrych ar y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r cyflwyniad ar gael ar wefan CCYSAGauC www.wasacre.org Diolchodd Phil i Alison ac Ann am eu cyflwyniad a gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau. Dyma enghreifftiau o rai o'r cwestiynau a ofynnwyd:<br>C1. A oes oedran penodol yn cael ei awgrymu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pryd mae plentyn yn gymwys i wneud y penderfyniad i'w dynnu ei hun yn ôl o Addoli ar y Cyd?<br>A. Nac oes. Fodd bynnag, cyfeirir at gymhwysedd yn y confensiwn a byddai'n rhaid i ysgolion wneud y penderfyniad.<br>C2. Pan fo plentyn yn cael ei dynnu'n ôl o addoli ar y cyd, pa weithgareddau a ystyrir fel rhai addysgol y gall plant eu gwneud yn lle hynny ac ymhle mae'r ddeddfwriaeth honno?<br>A. Mae'n datgan yn y Canllawiau Rhyngwladol y dylai'r gweithgaredd fod yn unol â dymuniadau'r rhiant ac yn unol â hawliau'r plentyn. | Alison and Ann gave a presentation on their recent research into Collective Worship across the UK, including looking at current legislation. The presentation is available on the WASACRE website. www.wasacre.org . Phil thanked Alison and Ann for their presentation and members were invited to ask questions. An example of some of the questions asked are as follows:<br>Q1. Is there a specific age suggested by the United Nations Convention on the Rights of the Child that a child is capable of making the decision to withdraw themselves from collective worship?<br>A. No there is not. However, competence is referred to in convention and schools would have to make that decision.<br>Q2. When a child is withdrawn from collective worship what activities are deemed to be educational that the children can do instead and where is that in the legislation?<br>A. It states in International Guidance that the activity should be in line with parental wishes and in line with the rights of the child. |
| 9. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a | 9. Report from the Executive Committee held on 10 |

Draft

| | |
|---|---|
| gynhaliwyd ar 10 May 2016 | May 2016 |
| Siaradodd Phil am berthynas CCYSAGauC gyda Chyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr a chynlluniau i gael trafodaeth a chydweithio pellach. Awgrymodd Phil y dylai CCYSGauC gadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd gyda manyleb AG newydd CBAC a fydd yn cael ei gweithredu ym mis Medi 2017. | Phil talked about WASACREs relationship with the Religious Education Council for England and Wales and plans for further dialogue and collaboration. Phil suggested that WASACRE should keep a watching brief on what is happening with the WJEC new RE specification which will be implemented in September 2017. |
| 10. Gohebiaeth | 10. Correspondence |
| Roedd Libby Jones wedi derbyn ebost gan Kathy Riddick, swyddog datblygu Dyneiddwyr Cymru ar 5 Ebrill 2016 yn holi ynghylch trefnu cynrychiolaeth Dyneiddwyr ar GYSAGau. Anfonodd Libby Jones ateb at Kathy yn egluro'r broses, darllenwyd copi o'i hymateb yn y cyfarfod, a gofynnodd Kathy am gael mynychu un o gyfarfodydd nesaf CCYSAGauC. Mewn ymgynghoriad â Phil, mae Libby wedi gwahodd Kathy i ddod i'r cyfarfod yn Sir Gaerfyrddin ym mis Tachwedd fel sylwedydd. | Libby Jones received an email from Kathy Riddick, development officer of the Wales Humanists on April 5 2016 to enquire about how Humanist representation on SACREs can be arranged. Libby Jones replied to Kathy to explain the process, a copy of her response was read out at the meeting, and Kathy asked to attend one of the future WASACRE meetings. In consultation with Phil, Libby has invited Kathy to attend the meeting in Carmarthenshire in November as an observer. |
| Cafodd Libby ebost gan riant yn Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf ynghylch mater cydraddoldeb posibl yn ysgol ei blentyn. Darllenodd Libby'r ebost i'r aelodau a oedd yn cytuno nad mater i CCYSAGauC mohono ac y byddai'n fwy defnyddiol ei drosglwyddo i CYSAG RhCT iddyn nhw gael ymchwilio ymhellach gyda'r ysgol dan sylw. | Libby received an email from a parent from RCT local Authority regarding a possible equality issue within his child's school. Libby read out the email to members who agreed that it was not a WASACRE issue and that it would be more helpful to pass it on to RCT SACRE for them to investigate further with the school in question. |
| **Gweithredu:** Bydd LJ yn cysylltu â'r rhiant i egluro mai CYSAG RhCT fydd yn delio bellach â'i ymholiad ac mae CYSAG RhCT wedi cael gwybod am hyn. | **Action:** LJ will contact the parent to explain that his enquiry is now being dealt with by RCT SACRE and RCT SACRE has been advised of the enquiry. |
| 11. U.F.A. Dim. | 11. A.O.B. None. |
| 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf:<br>18 Tachwedd 2016, Sir Gaerfyrddin. | 12. Date for next meeting:<br>18 November 2016, Carmarthenshire. |
| Cynhelir y cyfarfod yn Siambr Cyngor Sir Caerfyrddin. | The meeting will be held in the Carmarthenshire Council Chamber. |
| Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol: Gwanwyn 2017 Sir Fynwy; Haf 2017 Wrecsam; Hydref 2017 Pen-y-bont ar Ogwr; Gwanwyn 2018 Abertawe. | Future meeting dates: Spring 2017 Monmouthshire; Summer 2017 Wrexham; Autumn 2017 Bridgend; Spring 2018 Swansea. |
| Daeth Phil Lord â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau. | Phil Lord brought the meeting to a close and thanked those involved for their contributions. |

Draft

Draft